Mae gan Gyngor Gwynedd weledigaeth i ddatblygu cyfundrefn addysg gynradd fydd yn:
*"Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a 'u galluogi i ddatblygu i
fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn."*

Cytunodd Cyngor Gwynedd yn Ebrill 2009 i dderbyn strategaeth oedd yn nodi fod angen adolygu'r ddarpariaeth addysgol gynradd ar draws y sir.

**Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd**

Roedd y strategaeth yn ganlyniad i gyfnod hir o ystyried ac o drafod gan gynghorwyr. Wrth drafod, derbyniwyd cyflwyniadau gan nifer o gyrff, gan gynnwys:

- ESTYN
- Llywodraeth y Cynulliad
- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- National Association for Small Schools
- Cynghrair Ysgolion a Chefnogwyr
- Penaethiaid yn cynrychioli ysgolion bach, canolig a mawr Gwynedd
- Swyddogion Cyngor Gwynedd, yn benodol swyddogion oedd yn arbenigo mewn materion addysgol, cyllidol ac adeiladau

Cytunwyd y byddai angen adolygu un dalgylch ar y tro, gan gychwyn yn yr ardaloedd hynny oedd yn achosi'r pryder mwyaf. Er mwyn adnabod trefn y dalgylchoedd i'w hadolygu, lluniwyd rhestr o feini prawf oedd yn ystyried:

- Maint dosbarthiadau
- Y newid yn niferoedd disgyblion ers 1975
- Addasrwydd adeiladau ysgolion
- Arweinyddiaeth ysgolion ac anawsterau penodi penaethiaid
- Canran disgyblion sy'n derbyn addysg tu allan i'w dalgylch
- Cost fesul disgybl
- Llefydd gweigion

Wrth ddilyn y meini prawf uchod, adnabuwyd dalgylch Berwyn fel yr ail dalgylch i'w hadolygu.

Mi fydd Panel Ymgynghorol Sirol yn cynorthwyo'r Arweinydd Portffolio Addysg wrth iddi arwain adolygiadau fesul dalgylch. Mae gan bob grŵp gwleidyddol ar y Cyngor sedd ar y Panel Ymgynghorol Sirol er bod un aelod wedi ymddiswyddo yn ystod Haf 2009.

**Panel Adolygu Dalgylch Y Berwyn**

Sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch Y Berwyn yn ystod Tachwedd 2009. Pwrpas y Panel Adolygu Dalgylch yw cynorthwyo'r Arweinydd Portffolio Addysg, sef y Cynghorydd Liz Saville Roberts, wrth iddi lunio cynigion penodol ar gyfer y dalgylch.

Cam gyntaf sefydlu'r Panel Adolygu Dalgylch oedd i gynrychiolwyr y Cyngor - sef y Cyng. Liz Saville Roberts a chynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Sirol, Cyng. Siân Gwenllïan - ymweld â holl ysgolion cynradd y dalgylch ar 4 Tachwedd 2009. Bu cyfle iddynt gyfarfod â phenaethiaid a staff ac i weld yr ysgolion. Y teimlad oedd i'r ymweliad fod yn fuddiol ac yn adeiladol iawn.

Cynhaliwyd cyfarfod gyntaf Panel Adolygu Dalgylch Y Berwyn ar 4 Tachwedd 2009. Cytunwyd ar aelodaeth y Panel, sef:

- Arweinydd Portffolio Addysg


CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

- Cynrychiolydd Panel Ymgynghorol Sirol
- Pennaeth, cadeirydd llywodraethwyr a rhiant lywodraethwr o bob ysgol (cynradd ac uwchradd) yn y dalgylch
- Y tri chynghorydd lleol
- Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd
- Swyddogion eraill fel bo'n addas.
- Sylwebyddion

Cytunwyd hefyd y dylid estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o ysgolion cyfagos ar draws ffiniau cynghorau lleol,
yn benodol:
- cynghorydd lleol Llangwm (Sir Conwy)
- cynghorydd lleol Cynwyd (Sir Ddinbych)
- Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Llangwm

Derbyniodd y Panel nifer o bapurau yn ystod y cyfarfod cyntaf fel sail i'r gwaith:
- cylch gorchwyl a briff i'r Panel
- amserlen ar gyfer gwaith y Panel
- gohebiaeth gan Ysgol Y Berwyn ar gynlluniau posib i'w hystyried

Yn ogystal, derbyniwyd papur ystadegol yn crynhoi'r sefyllfa yn y dalgylch. Mae'r papur yn nodi gwybodaeth ar:
- lleoliad ysgolion y dalgylch
- niferoedd disgyblion a'r newidiadau ers 1975 a rhagolygon hyd at 2013
- capasiti ysgolion a llefydd gweigion
- sefyllfa penaethiaid ac anawsterau recriwtio
- maint dosbarthiadau
- disgyblion all-dalgylch
- dyraniadau ariannol ysgolion
- proffil ieithyddol ysgolion y dalgylch
- addasrwydd adeiladau
- cyfleusterau ac adnoddau yn yr ysgolion
- defnydd cymunedol
- disgyblion yn hawlio cinio am ddim

Mae'r ysgolion wedi cytuno i astudio'r wybodaeth ac i gynnig addasiadau erbyn 13 Tachwedd 2009. Bydd y papur ystadegol wedyn yn cael ei gymeradwyo gan y Panel yn ei gyfarfod nesaf.

Cyfeiriwyd hefyd at y cyd-destun statudol a chyfreithiol, yn bennaf at Gylchlythyr 021/2009 Llywodraeth y Cynulliad ar Gynigion Trefniadaeth Ysgolion. Hon fydd y ddogfen fydd yn sail i ystyriaethau wrth ymgynghori ar gynigion. Yn sgil derbyn y wybodaeth hon, gwnaethpwyd cais gan y Panel Adolygu Dalgylch am wybodaeth bellach ar:
- safonau'r ddarpariaeth addysgol gyfredol.
- effaith ar y gymuned
- effaith newidiadau ar y Gymraeg
- rhagolygon cyllidol ysgolion

Er mwyn hyrwyddo'r drafodaeth, gwnaethpwyd cais hefyd i swyddogion y Cyngor baratoi gwybodaeth ar ystod o fodelau posib o ad-drefnu ysgolion y cylch erbyn y cyfarfod nesaf o'r Panel Adolygu Dalgylch. Cytunwyd hefyd bod gan ysgolion ddiddordeb mewn gweld ysgolion newydd a modelau o gydweithio mewn siroedd eraill. Bydd y Cyngor yn ceisio trefnu ymweliad cyn y Nadolig.

**Ysgolion Unigol**

Mae'r Cyngor yn awyddus y bydd staff, rhieni a disgyblion yn llawn ymwybodol o'r trafodaethau sy'n digwydd o fewn y dalgylch. Derbyniodd y Panel Adolygu Dalgylch awgrym y byddai'r Cyngor yn paratoi newyddlen fer ar ddiwedd pob cyfarfod i grynhoi'r prif faterion a drafodwyd.

Rydym hefyd wedi cytuno i gynnal cyfarfodydd ymhob ysgol unigol dan arweinyddiaeth John Blake, cyn swyddog Addysg Ardal Meirionnydd a Gareth Williams, cyn Brif Weithredwr CYNNAL. Mi fydd cyfle yma i staff dysgu a chymorth, llywodraethwyr a rhieni gyfrannu at y drafodaeth ac i godi cwestiynau penodol. Cynhelir y cyfarfodydd yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn 11 Ionawr 2010.

Byddwn hefyd yn sefydlu grŵp trafod i blant a phobl ifanc dan arweinyddiaeth swyddogion arbenigol y Cyngor. Cynhelir y sesiwn hon hefyd yn y flwyddyn newydd.

**Amserlen**

Rhagwelir y bydd o leiaf 2 gyfarfod pellach o'r Panel Adolygu Dalgylch ar 2 Rhagfyr 2009 a 21 Ionawr 2010.

Erbyn diwedd Ionawr 2010, bydd yr Arweinydd Portffolio Addysg yn anelu i ddatblygu cynigion pendant ar gyfer dalgylch Y Berwyn fydd yn mynd gerbron Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd (Chwefror 2010), Bwrdd y Cyngor (Mawrth 2010) a'r Cyngor llawn. Y bwriad yw cwblhau'r broses yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 6 Mai 2010.

Mae'r amserlen o weithredu'r cynigion yn ddibynnol ar iddynt dderbyn cefnogaeth y pwyllgorau uchod, ac ar union natur y cynigion. Bydd y Cyngor yn darparu gwybodaeth bellach wrth i'r broses symud yn ei blaen.

**Dyddiad y Cylchlythyr nesaf**

Bydd y cylchlythyr nesaf yn cyrraedd eich ysgolion ar ôl cyfarfod nesaf Panel Adolygu Dalgylch Y Berwyn ar 2 Rhagfyr 2009.

**Gwybodaeth Bellach**

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor neu drwy gysylltu â'r Adran Addysg ar 01286 679 247 neu e-bost trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk